



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor

Adroddiad Adborth Ymgynghoriad

The poster features a yellow background with a white house silhouette on the right and a megaphone icon at the bottom left. A dark blue box contains the text: 'Have your say on Second Home and Long-term Empty Property Council Tax Premiums' and 'Dweud eich dweud ar Bremiymau Treth Gyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor'. A calendar icon in the top right corner indicates the closing date: 'Dyddiad cau/ Closing date: 29/10/2023'. At the bottom, the Ceredigion County Council logo and the 'Caru Love Ceredigion' logo are displayed.

PRIF GANLYNIADAU: EIDDO GWAG HIRDYMOR

- Cafwyd 1,403 o ymatebion, gyda **790 yn ymateb ar eiddo gwag hirdymor**.
- Roedd **83%** yn credu bod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol neu negyddol iawn **ar gymunedau lleol**. (1% yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn).
- Roedd **64%** o'r farn ei bod yn briodol cynyddu'r **premiwm** ar eiddo gwag tymor hir, a 36% ddim.
- Roedd **15%** o'r rhai wnaeth ymateb sy'n **berchen ar eiddo gwag hirdymor** yng Ngheredigion o'r farn ei bod yn briodol cynyddu'r premiwm, o'i gymharu â **72%** o'r rhai **nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag tymor hir**.
- Roedd **86%** o'r farn y dylid cyflwyno'r premiwm yn **ddibynnol ar ba mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag**. (14% ddim)
- Ymhlith y rhai wnaeth ymateb a oedd o'r farn y dylid cyflwyno'r premiwm yn ddibynnol ar ba mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag, roedd y rhai wnaeth ymateb o blaid 'graddfa symudol' lle po hiraf y mae'r eiddo wedi bod yn wag **yr uchaf yw'r premiwm y dylid ei ddefnyddio**.
- Ar gyfer eiddo sy'n wag am **1-2 flynedd** roedd 54% o'r rhai wnaeth ymateb yn cefnogi **premiwm is hyd at 50%**, am eiddo sy'n wag am **2-5 mlynedd** roedd y gyfran fwyaf (36%) o blaid premiwm o **100%**, am eiddo sy'n wag am **5-10 mlynedd** roedd y gyfran fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb (45%) yn cefnogi cynnydd o **300%** ac ar gyfer eiddo gwag am **dros 10 mlynedd** roedd mwyafrif o 66% o blaid y cyfanswm **premiwm o 300%**.
- **Roedd 60%** o'r farn y dylid gweithredu unrhyw gynnydd o **fis Ebrill 2024**. (roedd 32% wedi nodi mwy na blwyddyn).
- **Roedd 51%** o'r rhai wnaeth ymateb o'r farn y dylid cyflwyno premiwm treth y cyngor **beth bynnag fo'r amser y mae eiddo wedi bod yn wag** yn cefnogi'r **premiwm llawn o 300%**. Roedd rhywfaint o gefnogaeth (20%) ar gyfer cynnydd o 100% a chefnogaeth gyfyngedig (12%) am hyd at 50%. Dywedodd **81%** o'r rhai wnaeth ymateb y dylid gweithredu unrhyw gynnydd o **fis Ebrill 2024**, a nododd 10% y dylai fod dros fwy na blwyddyn.
- Roedd **70%** o'r farn y byddai **nifer yr eiddo gwag hirdymor** yn gostwng yn gymedrol neu'n sylweddol pe bai'r premiwm treth gyngor yn cael ei gynyddu ar eiddo gwag hirdymor. (Dywedodd 6% y byddai'n cynyddu'n gymedrol neu'n sylweddol).
- Roedd **58%** o'r farn y byddai'r **effaith ar y gymuned leol yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn** pe bai premiymau treth gyngor yn cael eu cynyddu ar eiddo gwag hirdymor. (Dywedodd 18% y byddai'n negyddol neu'n negyddol iawn).

3 PRIF THEMA YN Y SYLWADAU YSGRIFENEDIG:

1

Dylai fod **eithriadau** ar gyfer rhai amgylchiadau lliniaru

2

Dylid archwilio'r **rheswm pam eu bod yn wag** yn gyntaf gan y gallai ysgogi camau gweithredu gwahanol.

3

Dylid gwneud eithriadau ar gyfer eiddo sy'n cael eu **hadnewyddu** oherwydd gall hyn gymryd amser i'w qwblhau

PRIF GANLYNIADAU: AIL GARTREFI

- Derbyniwyd 1,403 o ymatebion, **gyda 1,362 yn ymateb ar ail gartrefi.**
- Mae **53%** o'r holl rai wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad **yn berchen ar ail gartref yng Ngheredigion** (746 o'r 1,362 ymateb).
- O'r 746 a ddywedodd eu bod yn berchen ar ail gartref yng Ngheredigion, dywedodd **75%** fod eu **prif breswylfa y tu allan i Geredigion**, tra dywedodd 22% fod eu **prif breswylfa yng Ngheredigion.**
- Dylid nodi bod 6.8% (2,289 eiddo) o'r 33,856 eiddo sy'n gymwys ar gyfer treth gyngor yng Ngheredigion yn ail gartrefi neu'n eiddo gwag hirdymor. Mae hyn yn dangos i ni fod tua **38.1%** o'r rhai sy'n **berchen ar ail gartref neu eiddo gwag yng Ngheredigion wedi ymateb i'r ymgynghoriad**, gyda dim ond **2%** o'r rhai **nad ydynt yn berchen ar ail gartref neu eiddo gwag hirdymor.** Mae hyn yn golygu bod y canlyniadau yn gogwyddo o blaid y rhai sy'n berchen ar ail gartref neu eiddo gwag yng Ngheredigion.
- Roedd **56%** yn credu bod ail gartrefi yn cael **effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar gymunedau lleol.** (dwedodd 27% negyddol neu negyddol iawn).
- Dywedodd dros hanner (**52%**) y rhai nad **ydynt yn berchen ar Ail Gartref** yng Ngheredigion fod eu heffaith ar **gymunedau lleol yn negyddol (24%) neu'n negyddol iawn (28%).**
- Ar y cyfan, roedd **28%** o'r farn bod **cynyddu'r dreth gyngor** ar ail gartrefi yn briodol, ond nid 72%.
- Dywedodd **53%** o'r rhai wnaeth ymateb **nad ydynt yn berchen ar ail gartref** ei bod **yn briodol codi'r premiwm ar ail gartrefi**, o'i gymharu â dim ond 6% o berchnogion ail gartrefi.
- Roedd y farn ar ba **lefel o bremiwm** sy'n briodol yn amrywiol. Y gyfran fwyaf oedd **35%** o blaid **premiwm o 300%**, yna **26%** yn cefnogi **premiwm o 100%** a **17%** yn cefnogi hyd at **50%**. (Roedd 13% o'r rhai wnaeth ymateb hefyd yn cefnogi premiwm o 200%, 5% yn cefnogi 150% a 3% yn cefnogi 250%).
- Felly roedd **82%** o'r holl rai wnaeth ymateb a gefnogodd gynnydd i'r premiwm yn cefnogi **naill ai 100% neu fwy** ac roedd **56%** o'r holl rai wnaeth ymateb a gefnogodd gynnydd i'r premiwm yn cefnogi **naill ai 150% neu fwy.**
- Roedd y rhai wnaeth ymateb nad **ydynt yn berchen ar ail gartref** yn fwy tebygol o **gefnogi premiwm uwch**, gyda'r **gyfran fwyaf (39%) yn cefnogi'r premiwm llawn o 300%**. (Roedd 4% hefyd yn cefnogi premiwm o 250%, 14% yn cefnogi premiwm o 200%, 6% yn cefnogi premiwm o 150%, 27% yn cefnogi 100% ac 11% yn cefnogi premiwm hyd at 50%).
- Felly roedd **89%** o'r rhai nad **ydynt yn berchen ar ail gartref a gefnogodd godi yn y premiwm yn cefnogi naill ai 100% neu'n uwch** ac roedd **62%** o'r rhai nad **ydynt yn berchen ar ail gartref a gefnogodd gynnydd yn y premiwm** yn cefnogi **naill ai 150% neu fwy.**
- **Roedd perchnogion ail gartrefi** yn fwy tebygol o gefnogi premiwm is gyda **61%** yn nodi'r **opsiwn isaf o hyd at 50%**, a 17% arall yn cefnogi premiwm o 100%.



PRIF GANLYNIADAU: AIL GARTREFI

- Roedd **57%** o'r rhai wnaeth ymateb **nad ydynt yn berchen ar ail gartref** yn cefnogi'r **premiymau uwch** o 200% i 300%, o'i gymharu â dim ond **18%** o'r rhai wnaeth ymateb sy'n **berchen ar ail gartref** yng Ngheredigion.
- Roedd **74%** o'r farn y dylid cyflwyno unrhyw gynnydd mewn premiwm o **fis Ebrill 2024**, tra dywedodd 21% y dylid ei gyflwyno fesul cam dros fwy na blwyddyn.
- Roedd **33%** o'r rhai sy'n **berchen ar ail gartref yng Ngheredigion** o'r farn y dylid cyflwyno cynnydd mewn premiwm ym **mis Ebrill 2024**, o'i gymharu ag **80%** o'r rhai **nad ydynt yn berchen ar ail gartref**.
- Roedd **52%** o'r rhai wnaeth ymateb sy'n **berchen ar ail gartref** yn credu y dylid cyflwyno unrhyw gynnydd mewn premiwm 'dros fwy na blwyddyn (h.y. fesul cam)', o'i gymharu â dim ond **16%** o'r rhai **nad ydynt yn berchen ar ail gartref**.
- Roedd **64%** o'r farn y byddai **nifer yr ail gartrefi yn gostwng yn gymedrol neu'n sylweddol** pe bai'r premiwm ar ail gartrefi yn cynyddu. (Dywedodd 2% y byddai'n cynyddu'n gymedrol neu'n sylweddol).
- Roedd **66%** o'r farn y **byddai argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath** pe bai'r premiwm ar ail gartrefi yn cynyddu. (Dywedodd 23% y byddai'n cynyddu'n gymedrol neu sylweddol a dywedodd 11% y byddai gostyngiad cymedrol neu sylweddol).
- Roedd **62%** o'r farn y byddai cynyddu lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith **niwtral** ar **gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** a **statws y Gymraeg yn y gymuned**. (roedd 20% o'r rhai wnaeth ymateb yn credu y byddai effaith negyddol neu negyddol iawn, tra bod y 18% sy'n weddill yn dweud y byddai'n gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn).
- Roedd **57%** o'r farn y byddai'r **effaith ar gymunedau lleol** yn negyddol neu'n negyddol iawn pe bai'r premiwm ar ail gartrefi yn cynyddu. (25% yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn).
- Mae dros dri chwarter (**76%**) o **berchnogion Ail Gartrefi yng Ngheredigion** o'r farn bod ail gartrefi yn cael **effaith gadarnhaol (42%) neu gadarnhaol iawn (34%) ar gymunedau lleol** yng Ngheredigion. (Dim ond 5% sy'n credu bod yr effaith yn negyddol).
- Ymhlith y rhai **nad ydynt yn berchen ar ail gartref**, roedd dros hanner (**52%**) o'r farn bod yr **effaith ar gymunedau lleol yn negyddol (24%) neu'n negyddol iawn (28%)**. (31% yn credu bod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol iawn (14%) neu'n gadarnhaol (17%)

3 PRIF THEMA'R SYLWADAU YSGRIFENEDIG

Perchnogion ail gartrefi:

1 Ni fyddai cynyddu premiymau treth y cyngor **yn arwain at y canlyniadau a ddymunir**

2 Mae ail gartrefi **yn cyfrannu'n gadarnhaol** at y gymuned / economi leol

3 **Ddim o blaid cynnydd cyffredinol** i breimiymau treth y cyngor ar ail gartrefi

Nad ydynt yn berchen ail dai:

1 Ni fyddai cynyddu premiymau treth y cyngor **yn arwain at y canlyniadau a ddymunir**

2 **Ddim o blaid cynnydd cyffredinol** i breimiymau treth y cyngor ar ail gartrefi

3 Mae ail gartrefi **yn effeithio'n negyddol** ar y gymuned / economi leol

Cefndir

Rhwng 18 Medi a 29 Hydref 2023, ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion a rhanddeiliaid ar ba lefel o breimymau treth y cyngor y dylid eu codi ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, codir tâl ychwanegol o 25% ar ben lefel arferol treth y cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn y sir.

Cynlluniwyd yr ymgynghoriad i hysbysu proses gwneud penderfyniadau gan y Cyngor mewn perthynas â preimymau treth y cyngor. Bydd yr allbwn o'r ymgynghoriad yn rhan o adroddiad i'r Cabinet gan gynnwys canfyddiadau'r ymgynghoriad i gynorthwyo'r Cabinet i wneud argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniad terfynol ar lefel preimymau treth y cyngor yn y dyfodol.

Yng Ngheredigion, mae 33,856 eiddo yn atebol i dalu treth cyngor. O'r rhain, mae 2,289 (6.8%) naill ai'n ail gartrefi neu'n eiddo gwag hirdymor. Mae'r rhan fwyaf o ail gartrefi wedi'u lleoli o amgylch yr ardaloedd arfordirol, gydag eiddo gwag hirdymor yn gyffredinol wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy trefol. Ceisiodd Cyngor Sir Ceredigion farn ar lefel preimymau treth y cyngor yn y dyfodol, gan gynnwys pa effaith y gallai unrhyw newidiadau eu cael ar gymunedau lleol, argaeledd tai fforddiadwy, yr iaith Gymraeg a'r economi leol.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Corfforaethol Cymunedau Gwyrdd, Cynaliadwy a Chysylltiadau Da trwy helpu i hysbysu penderfyniadau ynghylch lefel y preimymau treth y cyngor a godir ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngheredigion. Mae'r ddau eitem hyn yn flaenoriaethau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-27.

Roedd copïau papur, fersiynau print mawr a hawdd eu darllen ar gael ym mhob llyfrgell a chanolfan hamdden yng Ngheredigion, gan gynnwys faniau llyfrgell deithiol, a gellid eu lawrlwytho hefyd o wefan y Cyngor. Cafodd Cynllun Cyfathrebu ei weithredu ac roedd yn cynnwys datganiad cychwynol i'r wasg yn hysbysebu'r ymgynghoriad ar 18 Medi 2023, gyda negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi ar 18 Medi, 4 Hydref, 16 Hydref a 25 Hydref i atgoffa trigolion a rhanddeiliaid. Dangosir sampl o'r deunyddiau hyrwyddo isod.

**Dweud eich dweud
ar Breimymau Treth
Gyngor Ail Gartrefi
ac Eiddo Gwag
Hirdymor**

Dyddiad cau:
29 Hydref 2023

**Have your say on
Second Home and
Long-term Empty
Property Council
Tax Premiums**

Closing date:
29 October 2023

Nifer yr Ymateb

Cafwyd cyfanswm o 1,403 o ymatebion i'r ymgynghoriad, sef 2.3% o boblogaeth Ceredigion 18 oed neu drosodd. Cyflwynwyd 1,301 o ffurflenni ar-lein ynghyd â 102 o ffurflenni ar bapur. Cwblhawyd 7% neu 100 o arolygon yn Gymraeg a 93% neu 1,303 yn Saesneg. Roedd dwy brif adran i'r arolwg, sef ymatebion i'r cwestiynau ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Ymatebodd 1,362 i'r cwestiynau ar ail gartrefi ac ymatebodd 790 i'r cwestiynau ar eiddo gwag hirdymor Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau.

Prif Ganfyddiadau


Adran 1: Cefndir

C1: Ydych chi'n ymateb fel unigolyn, busnes, sefydliad nid er elw/gwirfoddol, Cyngor Tref neu Gymuned neu arall?

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr i'r arolwg hwn yn ymateb fel unigolyn (91% / 1,297 o ymatebion). Roedd llai na 10% o'r cyfranogwyr yn ymateb fel busnes (8% / 107 o ymatebion). Roedd tua 2% o'r cyfranogwyr naill ai'n ymateb fel sefydliad nid er elw/gwirfoddol (0% / 4 ymateb), Cyngor Tref neu Gymuned (1% / 8 ymateb) neu wedi dewis yr opsiwn 'Arall' (1% / 7 ymateb).

C1. Ydych chi'n ymateb fel unigolyn, busnes, sefydliad gwirfoddol / nad yw'n gwneud elw, Cyngor Tref neu Gymuned neu arall?

▼ Rhif




C2: Ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth y Cyngor i Gyngor Sir Ceredigion ar unrhyw eiddo?

Dywedodd bron pob cyfranogwr (91% / 1,280 o'r ymatebion) fod nhw'n gyfrifol am dalu treth y cyngor i Gyngor Sir Ceredigion ar eiddo, tra bod y 9% sy'n weddill (123 ymateb) yn nodi nad oeddent, gweler y siart ar y dudalen nesaf.

Nid yw hyn yn syndod, gwyddom y bydd y rhan fwyaf o anheddau yn ddarostyngedig i dreth y cyngor, ond bydd rhai wedi'u heithrio. Mae rhai anheddau heb eu dodrefnu (yn dibynnu ar amserlenni), anheddau sy'n eiddo i Elusen sydd wedi bod yn wag am lai na chwe mis, llety i fyfyrwyr, annedd sy'n gartref gan berson neu bersonau o dan 18 oed yn unig, yn enghreifftiau o anheddau a allai fod wedi'u heithrio rhag talu treth y cyngor.

C2. Ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth y Cyngor i Gyngor Sir Ceredigion ar unrhyw eiddo?

▼ Canran




C3: Ydych chi'n gyfrifol am dalu trethi busnes i Gyngor Sir Ceredigion ar unrhyw eiddo?

Dywedodd ychydig llai na 90% o'r cyfranogwyr (89% / 1,251 o'r ymatebion) nad oedden nhw'n talu trethi busnes i Gyngor Sir Ceredigion ar eiddo, tra bod y gweddill 11% (152 ymateb) yn dweud eu bod yn gwneud hynny, gweler y siart isod. Codir cyfraddau busnes ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig fel siopau, swyddfeydd, tafarndai, tai rhent gwyliau neu dai llety.

C3. Ydych chi'n gyfrifol am dalu treth busnes i Gyngor Sir Ceredigion ar unrhyw eiddo?

▼ Canran




C4: A yw eich prif breswylfa yng Ngheredigion?

Roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai wnaeth ymateb lle mae eu prif breswylfa yng Ngheredigion a'r rhai yr oedd eu prif breswylfa y tu allan i'r Sir. Nododd union hanner y cyfranogwyr (50% / 708 ymateb) fod eu prif breswylfa yng Ngheredigion a nododd 47% (657 ymateb) fod eu prif breswylfa y tu allan i'r Sir. Mae'r 3% sy'n weddill wedi dewis 'Ddim yn berthnasol', gweler y siart ar y dudalen nesaf.

C4. A yw eich prif breswylfa yng Ngheredigion?

▼ Canran




O'r rhai a atebodd 'Nac ydi' i gwestiwn 4 gan nodi nad oedd eu prif breswylfa yng Ngheredigion, nododd bron i hanner (47.9%) eu hunaniaeth genedlaethol fel Prydeiniwr yn y cwestiynau monitro cydraddoldeb. Nododd 40.3% o'r rhai wnaeth ymateb eu hunaniaeth genedlaethol fel Cymry. Nododd y rhai wnaeth ymateb sy'n weddill eu hunaniaeth genedlaethol fel Saeson (3.0%), hunaniaeth genedlaethol arall (1.5%), Albanaidd (0.3%) neu Ogledd Iwerddon (0.1%).

C5: Ydych chi'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion?

Dywedodd cyfanswm o 126 o ymatebion (9%) eu bod yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion. Dywedodd y 91% sy'n weddill (1,277 ymateb) nad oeddent yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion.

C5. Ydych chi'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion?

▼ Canran



O'r 126 ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion, roedd dros hanner (52%) naill ai'n berchen ar ail gartref hefyd, neu roedd eu hail gartref yn cael ei ystyried yn eiddo gwag hirdymor (nid oedd yn bosibl gwahaniaethu hyn oddi wrth ymatebion). Dywedodd 48% o'r rhai ddywedodd eu bod yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion nad oeddent nhw'n berchen ar ail gartref.


Yn ogystal, o'r rhai a nododd eu bod yn berchen ar eiddo gwag yng Ngheredigion (126 o'r rhai wnaeth ymateb), dywedodd y mwyafrif (62%) fod eu prif breswylfa yng Ngheredigion tra dywedodd 33% nad oedd eu prif breswylfa yng Ngheredigion.

C6: Ydych chi'n berchen ar ail gartref yng Ngheredigion?


Dywedodd dros hanner yr holl gyfranogwyr (53% / 746 ymateb) eu bod yn berchen ar Ail Gartref yng Ngheredigion, a dywedodd 47% (657 ymateb) nad oedden nhw.

C6. Ydych chi'n berchen ar ail gartref yng Ngheredigion?

▼ Canran




Dylid nodi bod 6.8% (2,289 eiddo) o'r holl 33,856 eiddo sy'n gymwys i dalu treth y cyngor yng Ngheredigion yn ail gartrefi neu'n eiddo gwag hirdymor. Mae hyn yn dangos i ni fod tua 38.1% o'r rhai sy'n berchen ar ail gartref neu eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion wedi ateb yr arolwg hwn. Pan fyddwn yn cymharu hyn â'r rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref neu eiddo gwag, dim ond 2% o'r rhain ymatebodd i'r ymgynghoriad. Yn y pen draw, gallai hyn olygu bod y canlyniadau'n gogwyddo o blaid y rhai sy'n berchen ar ail gartref neu eiddo gwag yng Ngheredigion. Mae'r diagram isod yn crynhoi hyn.



Ymhlith y rhai wnaeth ymateb sy'n berchen ar ail gartref, roedd y gyfran fwyaf rhwng 45 a 64 oed (43%) neu 65+ oed (38%). Roedd llai na 10% o'r cyfranogwyr rhwng 25 a 44 oed (9%) neu 16 i 24 (0%).

Ymhlith y rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar ail gartref, roedd y gyfran fwyaf hefyd rhwng 45 a 64 oed (46%). Roedd llawer llai o gyfranogwyr 65+ oed nad ydynt yn berchen ar ail gartref (23%) o'i gymharu â'r rhai sy'n gwneud (38%), ond roedd cyfran llawer uwch o'r rhai wnaeth ymateb rhwng 25 a 44 oed nad ydynt yn berchen ar ail gartref (21%) o'i gymharu â'r rhai sydd yn berchen (9%).

Ystod Oedran Ymatebwyr



O'r rhai a ddwedodd eu bod yn berchen ar ail gartref yng Ngheredigion (53% o'r holl ymatebion neu 746), dywedodd tri chwarter y rhai wnaeth ymateb hyn (75%) fod eu prif breswylfa y tu allan i Geredigion. Dywedodd llai na chwarter y rhai wnaeth ymateb (22%) sy'n berchen ar ail gartref fod eu prif breswylfa yng Ngheredigion. Ni atebodd y 3% oedd yn weddill y cwestiwn hwn neu ddewis 'Ddim yn berthnasol'.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar ail gartref yng Ngheredigion, fod eu prif breswylfa yng Ngheredigion (82%). Dywedodd tua 15% nad oedd eu prif breswylfa yng Ngheredigion, tra bod y 3% arall naill ai heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn berthnasol'.


Adran 2: Ail Gartrefi

C7. Ydych chi am ymateb ar Ail Gartrefi?

O ystyried natur yr arolwg hwn, nid yw'n syndod bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr eisiau ymateb i'r cwestiynau ar ail gartrefi. Dywedodd bron pob ymatebydd (97% / 1,362 ymateb) 'Ydw' i gwestiwn 7, tra bod 3% yn unig (41 ymateb) nad oeddent yn dymuno ymateb ar ail gartrefi. (Sylwch fod y rhai atebodd 'Nac ydw' i gwestiwn 7 wedi hepgor yr adran ar ail gartrefi a symud i gwestiwn 19 o'r arolwg ar eiddo gwag hirdymor).

C7. Ydych chi am ymateb ar Ail Garrefi?

▼ Canran




C8. Pa effaith ydych chi'n credu y mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol yng Ngheredigion?

Aeth y rhai a atebodd 'Ydw' i gwestiwn 7 yn eu blaen i ystyried effaith ail gartrefi ar gymunedau lleol yng Ngheredigion. Roedd mwyafrif o 56% o'r rhai wnaeth ymateb o'r farn bod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol (31%) neu gadarnhaol iawn (25%) ar gymunedau lleol. Yn y cyfamser, roedd ychydig dros chwarter (27%) o'r farn bod ail gartrefi wedi cael effaith negyddol (13%) neu negyddol iawn (14%). Nododd gweddill y rhai wnaeth ymateb (17%) fod eu hymateb yn 'niwtral'.

Q8. Pa effaith ydych chi'n credu y mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol yng Ngheredigion?

▼ Canran




Fodd bynnag, mae gwahaniaethau barn amlwg rhwng y rhai sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai nad ydynt. Dywedodd dros dri chwarter (76%) o'r rhai sy'n berchen ar ail gartref yng Ngheredigion fod yr effaith yn gadarnhaol (42%) neu'n gadarnhaol iawn (34%), o'i gymharu â dim ond 5% a ddywedodd negyddol (3%) neu'n negyddol iawn (2%). Roedd gan 19% arall o'r rhai sy'n berchen ar ail gartref farn 'Niwtral'.

Ymhlith y rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar ail gartref, dywedodd 31% fod yr effaith yn gadarnhaol (17%) neu'n gadarnhaol iawn (14%), tra bod y mwyafrif o 52% yn dweud bod yr effaith yn negyddol (24%) neu'n negyddol iawn (28%). Roedd gan 15% arall o'r rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar ail gartref farn 'niwtral'.

C9: Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi 25% yn ychwanegol ar Dreth y Cyngor ar ail gartrefi. Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n briodol bod hyn yn cynyddu?


Atebodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (72% / 987 ymateb) 'Nac ydw' gan nodi nad oeddent yn credu y dylid cynyddu'r tâl treth y cyngor ychwanegol o 25% ar ail gartrefi. Dywedodd y 28% sy'n weddill (375 ymateb) eu bod yn credu na ddylid cynyddu'r 25% ychwanegol o dâl treth y cyngor ar ail gartrefi.

C9. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi 25% yn ychwanegol ar Dreth y Cyngor ar ail gartrefi. Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n briodol bod hyn yn cynyddu?



Dywedodd mwyafrif clir (94%) o'r rhai sy'n berchen ar ail gartref, nad oeddent yn credu ei bod yn briodol cynyddu'r 25% ychwanegol o Dreth y Cyngor ar Ail Gartrefi, gyda'r 6% sy'n weddill yn nodi ei bod yn briodol iddo gael ei gynyddu.

Ymhlith y rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar ail gartref, roedd rhaniad mwy cyfartal rhwng y rhai o blaid cynnydd a'r rhai yn erbyn. Roedd ychydig dros hanner (53%) yn credu ei bod yn briodol cynyddu'r dreth gyngor ychwanegol o 25% ar ail gartrefi gyda 47% yn erbyn. Mae'r diagram canlynol yn dangos y gwahaniaeth barn rhwng y rhai sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai nad ydynt.




C10: Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi?

Cafodd cwestiwn 10 ei ateb gan y rhai a atebodd 'Ydw' yn unig i gwestiwn 9, h.y. y rhai a oedd yn credu ei bod yn briodol cynyddu'r premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi. Roedd hyn yn cyfateb i 28% o'r holl ymatebion neu 375.


Mae'r cwestiwn hwn yn holi ymatebwyr am farn ar ba lefel fyddai'n briodol ar gyfer premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn y Sir. Roedd y gyfran fwyaf (35% / 132 ymateb) o'r farn y dylid ei gosod ar y lefel uchaf o 300%, ac yna 26% (97 ymateb) yn cefnogi premiwm o 100% a 17% (63 ymateb) yn cefnogi hyd at 50% premiwm. Roedd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer premiwm o 200% gyda 13% (50 ymateb) o blaid hyn, ond llai o gefnogaeth ar gyfer premiwm o 150% (5% neu 18 ymateb) a dim ond 3% (18 ymateb) o blaid premiwm o 250%. Mae'r farn wedi'i grynhof yn y siart isod.

C10. Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi?

▼ Canran



Fel yn y cwestiwn blaenorol, roedd gwahaniaeth barn rhwng y rhai sy'n berchen ar ail gartref i'r rhai nad ydynt. Roedd y rhai wnaeth ymateb sy'n berchen ar ail gartref yn fwy tebygol o gefnogi premiwm is, tra bod y rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref yn fwy tebygol o gefnogi premiwm uwch. O'r 46 cyfranogwr sy'n berchen ar ail gartref ac a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (61%) o'r farn y dylid cynyddu premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi hyd at 50%. Ymhlith y 329 o gyfranogwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref ac a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd y gyfran fwyaf (39%) y dylid gosod y premiwm ar ail gartrefi ar y swm uchaf o 300%, gydag ychydig dros chwarter (27%) yn cefnogi premiwm o 100% a 14% o blaid premiwm o 200%. Mae'r siart ganlynol yn crynhoi'r gwahaniaethau barn hyn.




C11: Os ydych yn credu y dylid cynyddu'r Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi, a oes gennych farn ar sut i weithredu'r cynnydd hwnnw?

Roedd cwestiwn 11 yn gwestiwn dilynol arall i gwestiwn 9 a byddent ond yn cael ei gofyn i ateb cwestiwn 11 pe baent wedi ateb 'Ydw' i gwestiwn 9. Felly, ymatebodd 28% neu 375 o gyfranogwyr y cwestiwn hwn.

Roedd y cwestiwn yn archwilio sut y dylid gweithredu unrhyw gynnydd ym mhremiwm treth y cyngor ar ail gartrefi, gan ddarparu dau opsiwn gwahanol, y cyntaf i'w weithredu'n llawn ar y cyfle nesaf ym mis Ebrill 2024 neu ei weithredu dros fwy na blwyddyn, h.y. 'camau'. Nododd ychydig llai na thri chwarter y rhai wnaeth ymateb (74% / 277 ymateb) y dylid cynyddu'r premiwm treth gyngor ar gyfer ail gartrefi cyn gynted â phosibl o Ebrill 2024. Dywedodd llai na chwarter y rhai wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn (21% / 77 o ymatebion) y dylid cynyddu'r premiwm 'dros fwy na blwyddyn (h.y. camau)'. Dywedodd y 5% o'r rhai wnaeth ymateb nad oedd ganddynt unrhyw farn.

C11. Os ydych yn credu y dylid cynyddu'r Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi, a oes gennych farn ar sut i weithredu'r cynnydd hwnnw?

▼ Canran



Unwaith eto, roedd gwahaniaeth barn amlwg rhwng y rhai sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai nad ydynt. Roedd traean (33%) o'r rhai sy'n berchen ar ail gartref yn credu y dylid cyflwyno'r premiwm ym mis Ebrill 2024, o'i gymharu â'r mwyafrif llethol (80%) o'r rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref. Roedd dros hanner (52%) y rhai sy'n berchen ar ail gartref yn credu y dylid cyflwyno'r premiwm dros fwy na blwyddyn, o'i gymharu â dim ond 16% o'r rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref.


C12: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai nifer yr ail gartrefi yn

Roedd cwestiynau 12 i 17 yn cynnwys yr holl ymatebwyr i'r arolwg a gofynnwyd cyfres o gwestiynau am effaith premiymau treth y cyngor ar wahanol agweddau o'r Sir. Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn am farn ar yr effaith ar nifer yr ail gartrefi pe byddai premiwm treth y cyngor yn cynyddu.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb (64%) i'r cwestiwn hwn yn credu y byddai nifer yr ail gartref yn gostwng yn gymedrol neu'n sylweddol pe bai premiymau treth y cyngor ar ail gartrefi yn cynyddu. Roedd 34% arall o'r farn y byddai nifer yr ail gartrefi yn aros yr un fath, ac roedd cyfran fach o 2% o'r farn y byddai'r nifer yn cynyddu'n gymedrol neu'n sylweddol pe bai'r premiwm treth y cyngor yn cynyddu.

C12. Pe bai lefel Premiwn Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi yn credu y byddai nifer yr ail gartrefi yn:

▼ Canran



Ymhlith y rhai wnaeth ymateb sy'n berchen ar ail gartref yng Ngheredigion, roedd y gyfran fwyaf (38%) o'r farn y byddai nifer yr ail gartrefi yn aros yr un fath pe bai'r premiwm treth gyngor yn cynyddu. Dilynwyd hyn yn agos gan 34% a oedd yn credu y byddai'r nifer yn gostwng yn gymedrol, ac roedd ychydig llai na chwarter (24%) yn credu y byddai'r nifer yn gostwng yn sylweddol. Dim ond 2% o'r rhai sy'n berchen ar ail gartref oedd yn credu y byddai nifer yr ail gartrefi yn cynyddu'n gymedrol ond doedd neb o'r farn y byddai'n cynyddu'n sylweddol.


Ar gyfer y rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref, roedd y gyfran fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb (42%) yn credu y byddai nifer yr ail gartrefi yn gostwng yn gymedrol pe bai'r premiwm treth gyngor yn cael ei gynyddu, ac yna 28% a oedd yn credu y byddai'r nifer yn aros yr un fath. Roedd 22% arall yn credu y byddent yn gostwng yn sylweddol. Dim ond 1% oedd yn credu y byddai nifer yr ail gartrefi yn cynyddu'n gymedrol ac 1% yn cynyddu'n sylweddol pe bai'r premiwm treth gyngor yn cynyddu.

C13: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn

Roedd mwyafrif y rhai wnaeth ymateb (66%) yn credu y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath pe bai lefel premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn cynyddu. Mae ychydig llai na chwarter (23%) yn tybio y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn cynyddu (naill ai'n gymedrol neu'n sylweddol), tra bod cyfran lai (11%) yn teimlo y byddai'r argaeledd yn lleihau (naill ai'n gymedrol neu'n sylweddol).

C13. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn:

▼ Canran



O'r rhai wnaeth ymateb hynny sy'n berchen ar ail gartref, mae mwyafrif llethol (80%) yn credu y bydd argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath pe bai lefel premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu. Ar y llaw arall, mae barn y rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref yn fwy rhanedig. Mae llai na hanner (45%) o'r farn y bydd argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath, tra bod 40% yn teimlo y byddai'n cynyddu (naill ai'n gymedrol neu'n sylweddol).


Mae'r canlyniadau'n dangos, wrth i oedran y rhai wnaeth ymateb gynyddu, bod y farn ar y mater yn dod yn fwy amlwg. Mae barn y grwpiau oedran iau yn fwy amrywiol, mae ychydig o dan hanner (43%) y grŵp oedran 16-44 yn tybio y bydd argaeledd tai fforddiadwy yn aros yr un fath pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cynyddu, tra bod dros draean (37%) yn credu y byddai'r argaeledd yn cynyddu. Ar y llaw arall, consensws cyffredinol y rhai wnaeth ymateb yn y grwpiau oedran hŷn (45-64 a 65+) yw y byddai'r argaeledd yn aros yr un fath (gyda 69% yn dewis yr ateb hwn), tra bod 20% yn credu y byddai'n cynyddu. Mae ymchwil yn dangos bod y cynnydd diweddar ym mhrisiau tai yn ei gwneud hi'n fwyfwy anodd i bobl ifanc gamu ar y farchnad eiddo, a gall y canlyniadau hyn adlewyrchu rhai o'r heriau hyn.

C14: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned yn

Mae mwyafrif o 62% yn credu y bydd cynyddu lefel premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith "niwtral" ar statws y Gymraeg yn y gymuned. Mae 20% o'r rhai wnaeth ymateb yn credu y byddai effaith negyddol neu negyddol iawn, tra bod y 18% sy'n weddill yn credu y byddai cynnydd yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn.

C14. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned yn:

▼ Canran



Ar y cyfan, y farn gyffredin ymhlith y rhai wnaeth ymateb sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai nad ydynt, yw na fyddai cynnydd yn lefel premiwm treth y cyngor yn arwain at unrhyw effaith amlwg ar statws y Gymraeg yn y gymuned. Fodd bynnag, mae'r rhai wnaeth ymateb sy'n berchen ar ail gartrefi yn rhannu mwy o gonsensws o blaid effaith niwtral (71%) o'i gymharu â'r rhai nad ydynt (48%). Mae barn y rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar ail gartref yn fwy amrywiol (mae 35% yn credu y byddai cynnydd yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ac mae 12% yn credu y byddai'n cael effaith negyddol neu negyddol iawn).


Mae cyfran fwy o'r rhai sydd â sgiliau Cymraeg (e.e., naill ai'n gallu siarad, ysgrifennu, deall, neu ddarllen Cymraeg) (28%) yn teimlo y byddai cynnydd mewn premiwm treth y cyngor yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn o'i gymharu â chyfran fach (7%) o'r rhai wnaeth ymateb heb unrhyw sgiliau Cymraeg.

C15: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar y gymuned leol yn

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o'r rhai wnaeth ymateb (57%) yn credu y byddai cynnydd lefel premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn arwain at effaith negyddol neu negyddol iawn ar y gymuned leol. Mae ychydig llai na chwarter (24%) yn credu y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn, tra bod y 19% sy'n weddill yn credu na fyddai unrhyw effaith amlwg (effaith niwtral).

C15. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar y gymuned leol yn

▼ Canran



*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

Ymhlith perchnogion ail gartrefi, y consensws yw y byddai cynnydd i lefel premiwm treth y cyngor yn cael effaith negyddol neu negyddol iawn ar y gymuned leol, gydag 80% yn dewis yr opsiynau hyn. Er mai'r ymateb mwyaf cyffredin ymhlith y rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref, yw y byddai cynnydd yn arwain at effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn (47%) ar y gymuned leol.


Mae gwahaniaethau bach rhwng y rhai a ymatebodd fel perchennog busnes o'i gymharu â'r rhai a ymatebodd fel unigolyn, fodd bynnag, y farn gyffredinol yw y byddai cynnydd yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Mae perchnogion busnes yn teimlo'n gryfach am hyn (68%), o'i gymharu a'r rhai wnaeth ymateb yn unigol (54%). Mae chwarter (25%) o'r rhai wnaeth ymateb yn unigol yn credu y byddai cynnydd yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn, tra bod canran fach iawn (5%) o berchnogion busnes yn arddel y farn hon.

C16: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar dwristiaeth yn

Ar y cyfan, y farn gyffredin yw y byddai cynnydd i lefel premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol neu negyddol iawn ar dwristiaeth, gyda 68% yn nodi hyn. Mae ychydig llai na chwarter (24%) o'r rhai wnaeth ymateb o'r farn na fyddai unrhyw effaith amlwg, tra bod cyfran fach (8%) yn credu y byddai cynnydd yn effeithio'n gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ar dwristiaeth.

C16. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar drwistiaeth yn

▼ Canran



Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n ymateb fel perchennog busnes ac fel unigolyn o'r farn y byddai cynnydd i lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol neu negyddol iawn ar dwristiaeth, fodd bynnag, mae perchnogion busnes yn cytuno'n gryfach. Ymhlith y rhai wnaeth ymateb sy'n berchnogion busnes, mae 1mwyafrif llethol (84%) yn credu y bydd cynnydd yn cael effaith negyddol neu negyddol iawn ar dwristiaeth, o'i gymharu ag ychydig llai na dwy ran o dair (65%) o'r rhai wnaeth ymateb yn unigol. Disgwylir y gwahaniaeth hwn, gan y gallai unrhyw effaith bosibl ar niferoedd twristiaid effeithio'n uniongyrchol ar rai busnesau sy'n ddibynnol ar gwsmeriaid.

Mae didoli'r ymatebion gan berchnogion ail gartrefi a pherchnogion tai nad ydynt yn ail gartrefi yn amlygu rhai gwahaniaethau mewn barn ar yr effaith i dwristiaeth, fodd bynnag, y farn gyffredinol yw y byddai cynnydd i'r premiwm ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth. Ymhlith perchnogion ail gartrefi mae mwyafrif helaeth (88%) yn credu y bydd cynnydd yn cael effaith negyddol neu negyddol iawn ar dwristiaeth. Mae barn y rhai nad ydynt yn berchnogion ail gartrefi yn fwy rhanedig, mae mwyafrif bach (42%) yn credu y byddai'r effaith ar dwristiaeth yn negyddol neu'n negyddol iawn, tra bod 38% yn credu na fyddai unrhyw effaith amlwg (effaith niwtral). Yr ateb lleiaf amlwg ymhlith y ddau grŵp yw y byddai cynnydd yn arwain at effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn (2% ymhlith perchnogion ail gartrefi a 14% ymhlith y rhai nad ydynt yn berchnogion ail gartrefi).²

C17: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar yr economi leol yn


Mae dwy ran o dair (67%) o'r rhai wnaeth ymateb o'r farn y byddai cynnydd i lefel premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yn negyddol neu'n negyddol iawn. Mae 18% yn credu y byddai'n cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn, tra bod 15% yn credu na fyddai unrhyw effaith amlwg (effaith niwtral).

¹ Ymhlith y rhai wnaeth ymateb sy'n berchnogion busnes, mae 51% yn berchnogion ail gartrefi ac nid yw 49% yn berchen ar ail gartref.

² Ni atebodd 1% o berchnogion ail gartrefi a 6% o'r rhai nad ydynt yn berchnogion ail gartrefi cwestiwn 16.

C17. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar yr economi leol yn

▼ Canran



Y farn gyffredin ymhlith y rhai wnaeth ymateb sy'n berchnogion busnes a'r rhai wnaeth ymateb yn unigol yw y byddai cynnydd yn effeithio'n negyddol ar yr economi leol, fodd bynnag, mae perchnogion busnes yn rhannu'r farn hon yn gryfach. Mae mwyafrif llethol (84%) o berchnogion busnes o'r farn y byddai'r effaith ar yr economi leol yn negyddol neu'n negyddol iawn, o'i gymharu â mwyafrif llai (63%) o'r rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen busnes.

Mae barn perchnogion ail gartrefi a'r rhai nad ydynt yn berchen ar ail gartref yn fwy amrywiol i'r mater hwn, ond y farn gyffredinol amlycaf yw y byddai'r effaith yn negyddol. Mae mwyafrif helaeth o berchnogion ail gartrefi (86%) yn rhagweld effaith negyddol neu negyddol iawn ar yr economi leol os bydd lefel premiymau treth y cyngor ar ail gartrefi yn cynyddu. Ymhlith y rhai nad ydynt yn berchen ail gartrefi, mae mwyafrif sylweddol llai (40%) yn credu hyn. Er bod ychydig dros draean (35%) o'r farn y byddai cynnydd yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar yr economi leol (o'i gymharu â 2% o berchnogion ail gartrefi).

C18: Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych mewn perthynas â premiymau Treth y Cyngor ar ail gartrefi.

Roedd y cwestiwn canlynol yn rhoi cyfle i ymatebwyr rannu unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â premiymau treth gyngor ar ail gartrefi nad oedd yn rhan o'r cwestiynau blaenorol. Cynhyrchodd nifer sylweddol o ymatebion (cyfanswm o 1,254). Cafodd yr ymatebion eu codio a chodwyd deuddeg thema eang o'r sylwadau, a welir yn y tabl isod. Gan fod y rhan fwyaf o'r sylwadau yn cynnwys sawl pwynt, yn aml canfyddwyd mwy nag un thema o bob sylw. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r themâu a'r nifer o weithiau yr ymddangosodd pob thema.

Thema	Nifer y cyfeiriadau
Ni fyddai cynyddu premiymau Treth y Cyngor yn arwain at y canlyniadau a ddymunir	325
Ddim o blaid 'cynnydd cyffredinol' i breimiymau Treth y Cyngor	216
Ail gartrefi yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymuned/economi leol	189
Dirwyo perchnogion ail gartrefi	120
Mae angen dull gwahanol	113
Gorfodi i werthu os bydd premiymau treth y cyngor yn cynyddu	69
Mae ail gartrefi yn effeithio'n negyddol ar y gymuned/economi leol	59

Premiymau treth y cyngor eisoes yn ddigon uchel	56
Cefnogi cynnydd i bremiymau treth y cyngor	54
Byddai cynnydd mewn premiwm treth y cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar drigolion/cymuned leol	24
Tryloywder o ran sut mae refeniw cyfredol/ychwanegol yn cael ei wario	22
Nid yw'r lefel bresennol o berchnogaeth ail gartrefi yn effeithio'n negyddol ar gymuned leol	7

'Ni fyddai cynyddu premiymau Treth y Cyngor yn arwain at y canlyniadau a ddymunir' oedd y thema fwyaf cyffredin trwy gydol y sylwadau. Nododd ychydig dros hanner y sylwadau hyn na fyddai cynnydd yn gwella argaeledd na fforddiadwyedd cartrefi, gan gynnwys y rhesymau: *mae ail gartrefi yn anfforddiadwy i brynwyr tro cyntaf/pobl leol, preswylwyr ar incwm isel/diffyg swyddi â chyflog da, nid yw ail gartrefi wedi'u cynllunio ar gyfer byw ynddynt yn barhaol, mae angen buddsoddiad sylweddol ar ail gartrefi i'w hadnewyddu.*

Er bod ychydig llai na hanner y sylwadau yn nodi y byddai cynnydd yn effeithio'n negyddol ar y gymuned leol a'r economi, roedd y rhesymau'n cynnwys: *byddai busnesau sy'n dibynnu ar y diwydiant twristiaeth yn dioddef, byddai busnesau i fasnachwyr lleol yn lleihau, byddai'r economi leol yn dirywio wrth i lai o incwm gwario gael ei wario mewn cymunedau, byddai perchnogion ail gartrefi yn newid i drethi busnes gan leihau refeniw i'r Cyngor, byddai trigolion sydd angen arosiadau tymor byr ar gyfer cyflogaeth yn cael eu cosbi (e.e., staff asiantaeth), byddai trigolion lleol yn cael eu gorfodi i werthu ail gartrefi a'u prynu gan bobl gyfoethocach y tu allan i Geredigion.* Roedd cysylltiad agos rhwng y thema hon â'r pumed cyfeiriad mwyaf cyffredin 'mae angen dull gwahanol' (wedi'i esbonio'n fanylach uchod).

Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd 'na ddylid defnyddio dull cyffredinol o gynyddu premiymau Treth y Cyngor' (216 wedi crybwyll). Mynegwyd sawl rheswm pam. Nododd y rhai wnaeth ymateb fod amgylchiadau unigol perchnogion ail gartrefi yn amrywio'n sylweddol gan deimlo bod effaith ail gartrefi ar y cymunedau/preswylwyr yn dibynnu ar wahanol ffactorau (er enghraifft, mae'r defnydd a wneir o ail gartref yn penderfynu a yw'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar drigolion Ceredigion a'i chymunedau). O'r herwydd, pwysleisiodd y rhai wnaeth ymateb y dylid ystyried y canlynol yn ystod y broses benderfynu:

- lefel y preswylir yn yr ail gartref - cwpl o wythnosau'r flwyddyn i 6 mis +
- deiliadaeth ail gartref – llety gwyliau (llawn amser/tymhorol), gwely a brecwast, ail gartref gwag ac ati.
- caffael yr ail gartref – wedi'i etifeddu neu ei brynu.

Roedd rhai yn cynnig awgrymiadau ar sut y gellid ymgymryd â'r broses eithrio, er enghraifft, drwy edrych ar ail gartrefi *fesul achos* (h.y., drwy ddefnyddio'r meini prawf uchod), neu drwy *osod cynnydd fesul ardal penodol/cod post.*

Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd bod 'ail gartrefi yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned/economi leol', gyda chyfanswm o 189 o grybwylliaid. Roedd y rhesymau'n cynnwys: *mae perchnogion ail gartrefi wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r gymuned, ymlyniad cryf i'r ardal leol, cyflogi crefftwyr lleol a defnyddio busnesau lleol, mwy o incwm gwario, llai o faich ar wasanaethau'r cyngor, cofleidio/dysgu'r Gymraeg, buddsoddi mewn eiddo yn yr ardal.*

Cyfeiriwyd at 'gosbi perchnogion ail dai' tua 120 o weithiau, a dyma'r bedwaredd thema fwyaf cyffredin. Cyfeiriodd ychydig dros 40% o'r sylwadau hyn at gosbi perchnogion ail gartrefi lleol yn

benodol. Cyfeiriwyd sylwadau at: y rheol deiliadaeth 182 diwrnod newydd fel un *anghyfiawn*, *bod argyfwng costau byw eisoes yn rhoi pwysau ar berchnogion ail gartrefi, bod camsyniad cyffredin bod pob perchennog ail gartref yn gyfoethog, mae'r premiwm presennol yn rhesymol / eisoes yn ddigon uchel o ystyried y gwasanaethau a ddefnyddir, cosbi'r rhai sydd wedi buddsoddi arian yn yr eiddo a'r ardal, annheg ar y rhai sydd wedi etifeddu eiddo, cosbi'r rhai sy'n adnewyddu eu heiddo i fyw ynddo, yw enwi ond ychydig.*

Y thema a ymddangosodd tua 113 o weithiau ac a oedd y pumed mwyaf cyffredin ar y cyfan, oedd bod angen 'dull gwahanol'. Nid oedd y rhai wnaeth ymateb hyn yn credu y byddai cynyddu premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn gwella argaeledd a fforddiadwyedd tai i drigolion lleol eu rhentu a'u prynu, ac yn cynnig awgrymiadau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Adeiladu mwy o dai fforddiadwy
- Llacio rheoliadau cynllunio i adeiladu mwy o gartrefi
- Cynyddu'r ddarpariaeth o swyddi sy'n talu'n dda/o ansawdd uchel
- Cynyddu cyfraddau Treth y Cyngor ar Dai Amlfeddiannaeth (HMO's)
- Cynyddu premiymau Treth y Cyngor ar eiddo gwag
- Cyflwyno cap rhent
- Adfywio cymunedau
- Lleihau cyfraddau busnes
- Codi Treth y Cyngor i'r holl breswylwyr

Fel yr adlewyrchir roedd nifer o awgrymiadau wedi'u darparu, fodd bynnag, y farn gyffredinol gan y rhai wnaeth ymateb hyn yw y dylai'r ffofws fod ar gynyddu argaeledd a fforddiadwyedd cartrefi i drigolion lleol, y dylid canolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth o gartrefi fforddiadwy a swyddi sy'n talu'n well.

Mae'r tabl isod yn rhoi sampl o rai o'r sylwadau i gwestiwn 18.

Sampl Sylwadau	
"Mae'r rhan fwyaf o ail gartrefi yn fy ardal i yn eiddo i'r Cymry. Camliwiad yw eu gweld fel eiddo i Saeson neu eraill. Maent yn eiddo sydd wedi bod yn eu teuluoedd ers blynnyddoedd lawer. Maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd i ffwrdd o'r ysgol a chyflogaeth leol. Yr unig gyflogaeth leol yn yr ardaloedd hyn yw twristiaeth - heb y diwydiant twristiaeth ni fyddai pobl eisiau byw yma, gan nad oes cyflogaeth iddyn nhw.... Mae ail gartrefi yn dueddol naill ai wedi'u cynllunio ar gyfer byw tymor byr yn unig neu wedi'u prisio ar lefel sy'n golygu na all pobl leol eu fforddio (oherwydd eu maint fel arfer). Mae'r premiwm presennol o 25% yn fwy na digonol."	"Pan wnaethon ni brynu ein hail gartref ychydig flynyddoedd yn ôl roedd wedi bod ar y farchnad am fwy na 2 flynedd. Roedd mewn cyflwr gwael iawn. Defnyddion ni grefftwy'r lleol i'w adfer i'r hen dŷ hardd y mae bellach. Rydym yn treulio ein hamser yn gyfartal rhwng ein dau gartref. Rydyn ni wedi'n hintegreiddio'n llawn i'r gymuned ac mae gennym lawer o ffrindiau Cymreig ac yn defnyddio adnoddau sydd o fudd i'r gymuned a pheidio â defnyddio pethau fel gwasanaethau iechyd sy'n brin..."
"Gall ail gartref ddisgyn i wahanol gategorïau. Yn fy achos i, etifeddais yr eiddo gan fy mam. dyma'r tŷ lle cefais fy magu mewn cymuned hyfryd. Rwy'n rhan o Aberystwyth, ac mae'r tŷ yn cynnwys llawer o eitemau o ddiddordeb i'r amgueddfa. Rwy'n siaradwr Cymraeg. Os yw'r eiddo yn cael ei werthu, does dim sicrwydd y bydd siaradwr Cymraeg lleol yn byw ynddo."	"Fel perchennog ail gartref, rwy'n ymdrechu i brynu a chyflogi masnachwyr lleol. Mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio gan deulu sydd hefyd yn mynd ar wyliau yn yr ardal, ac yn ystod y cyfnod hwnnw maent yn treulio swm uwch na'r cyfartaledd wrth iddynt ymlacio, unwaith eto yn cefnogi busnesau lleol. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, ni fyddai'r mwyafrif o ail gartrefi yn perthyn i'r categori 'cartrefi fforddiadwy'. Hefyd, pe bai cynnydd yn nifer y cartrefi sy'n cael eu dwyn i'r farchnad, gallai hyn arwain at ostyngiad mewn gwerth eiddo ar gyfer y prif breswylwyr presennol, felly mae'n bwysig cael cydbwysedd. Felly,


	credaf y byddai'r effaith ar yr economi leol yn niweidiol pe bai llai o ail gartrefi ac yna ymwelwyr â Cheredigion..."
"Dwi'n meddwl byddai cynnydd cyffredinol ar breimiwm treth y cyngor yn anghywir..."	Tra'n deall nad yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng preswylwyr tramor a brodorol yn y mater hwn, oni fyddai'n well ceisio gwahaniaethu rhwng ail gartrefi a thai gwag. Os codir y premiwm o'r 25% presennol, beth am ei godi gam rhesymol ar gyfer cartrefi gwyliau (dyweder 50%) a'i godi mwy ar gyfer tai gwag (o bosibl 100%).
"Rydym yn ysgrifennu i fynegi ein pryderon o'r galon am y cynnydd arfaethedig yn y premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi yng Ngheredigion. Fel teulu sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y gymuned, rydym wedi bod yn dyst ac wedi cyfrannu at ei dwf dros y blynyddoedd. Mae'n ein tristáu i feddwl am effaith bosibl y newid arfaethedig hwn. Gallai'r cynnydd premiwm arfaethedig effeithio'n sylweddol ar ein gallu i gynnal ein presenoldeb yng Ngheredigion. Gyda chalonnau trwm rydym yn ystyried yr angen posibl i adael yr ardal yr ydym wedi dod i'w galw'n gartref."	"Rwy'n deall sefyllfa pobl leol sydd ar incwm isel ac yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai. Dylid gwneud mwy i gefnogi pobl ar incwm isel a sicrhau bod mwy o eiddo fforddiadwy ar gael. Ond ni ddylid cyfuno'r mater hwn gyda pherchentyaeth ail gartrefi, sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol. Nid yw pob perchennog ail gartref yn gyfoethog, nac yn fewnfudwyr o Loegr, neu bobl ddi-Gymraeg..."
"Mae gormod o lawer o ail gartrefi yn y sir ac mae hynny'n cael effaith negyddol ar allu pobl ifanc lleol i gaffael eu cartrefi eu hunain. Mae rhai perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu at yr economi leol, ond nid yw eraill, yn aml yn dod â'u nwyddau a'u darparwyr gwasanaeth eu hunain i mewn o'u hardal gartref."	"Dylai fod gwahaniaeth rhwng ail gartref sy'n cael ei redeg fel gwyliau yn hytrach nag eiddo sy'n cael ei gadw'n wag yn bwrsol gan y perchennog drwy gydol y flwyddyn. Mae llety gosod gwyliau yn cael ei ddefnyddio gan y gwesteion sydd yn eu tro yn gwario eu harian mewn siopau, bwyta a thafarndai ac ati yn ystod eu harhosiad. Mae gan ein bwthyn bach deiliadaeth o fis Mawrth tan fis Hydref bob blwyddyn gyda sawl cwpl yn dychwelyd bob blwyddyn."

Adran 3: Eiddo Gwag Hirdymor

C19: Ydych chi am ymateb ar eiddo gwag hirdymor?

Yna gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent am ateb cwestiynau yn ymwneud ag eiddo gwag hirdymor (EGH). O'r 1,403 ymateb, roedd dros hanner (56% / 790 o ymatebion) am ymateb tra nad oedd y 44% oedd yn weddill.

C19. ydych chi am ymateb ar eiddo gwag hirdymor?




C20: Pa effaith ydych chi'n credu bod eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol yng Ngheredigion?

Pwrpas y cwestiwn cyntaf ar eiddo gwag hirdymor oedd l sefydlu barn y rhai wnaeth ymateb ar eu heffaith ar gymunedau lleol. Mae mwyafrif llethol (83%) yn credu bod eiddo gwag hirdymor yn effeithio ar gymunedau lleol yng Ngheredigion yn negyddol neu'n negyddol iawn. Nid yw 17% yn credu eu bod yn cael unrhyw effaith weladwy, tra bod cyfran fach iawn o 1% yn credu eu bod yn cael effaith gadarnhaol iawn. Yn nodedig, o'r 780 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dim ond 13% sy'n berchen ar EGH, felly, cynrychiolir yr ymatebion yn anghymesur o blaid y rhai nad ydynt yn berchen ar EGH (87%).

C20. Pa effaith ydych chi'n credu bod eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol yng Ngheredigion?

▼ Canran




Ymhlith y rhai sy'n berchen ar EGH a'r rhai nad ydynt, y consensws yw bod EGH yn cael effaith negyddol neu negyddol iawn ar gymunedau lleol yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae mwy o gytundeb ymhlith y rhai nad ydynt yn berchen ar EGH (87% a ddewisodd yn negyddol neu'n negyddol iawn) o'i gymharu a rhaniad mwy cyfartalog ar gyfer y rhai sydd â EGH (50% a ddewisodd yn negyddol neu'n negyddol iawn, 44% yn niwtral a 2% yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn).

C21: Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi 25% yn fwy o Dreth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor. Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n briodol bod hyn yn cynyddu?


Mae mwyafrif y rhai wnaeth ymateb (64%) yn credu ei bod yn briodol cynyddu'r tâl presennol o 25% yn fwy ar dreth y cyngor, tra bod ychydig dros draean o'r rhai wnaeth ymateb (36%) yn credu ei bod yn amhriodol.

C21. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi 25% yn fwy o Dreth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor. Ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol bod hyn yn cynyddu?





Mae gwahaniaethau sylweddol mewn barn rhwng y rhai sy'n berchen ar EGH a'r rhai nad ydynt. Ymhlith y rhai sy'n berchen ar EGH, mae cyfran fawr (85%) yn credu y byddai'n amhriodol cynyddu'r taliadau cyfredol, o'i gymharu ag ychydig dros chwarter (28%) o'r rhai nad ydynt yn berchen ar EGH. Barn gyffredinol y rhai nad ydynt yn berchen ar EGH, yw y byddai'n briodol cynyddu'r taliadau cyfredol, gyda 72% yn ymateb 'ydw' i'r cwestiwn hwn. Mae'r diagram isod yn crynhoi'r gwahaniaeth barn hwn.

Yn berchen eiddo gwag hirdymor



C21:Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi 25% yn fwy o Dreth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor. A ydych yn credu ei bod yn briodol fod hyn yn cynyddu?


Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor



C22: Os felly, a ydych chi'n credu y dylid cyflwyno cynnydd gwahanol gan ddibynnu ar ba mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag?

O'r 506 a ddewisodd 'ydw' i gwestiwn 21, mae mwyafrif llethol o 86% yn credu y dylid cymhwyso cynnydd i'r taliadau presennol yn wahanol gan ddibynnu ar ba mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag, tra nad yw cyfran lai o 14% yn credu y byddai'n briodol gwneud hynny.

C22. Os felly, a ydych chi'n credu y dylid cyflwyno cynnydd gwahanol gan ddibynnu ar ba mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag?




C23: Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y gwahanol gyfnodau o amser y mae eiddo yn wag? (1-2 flynedd)

O'r 429 o'r rhai wnaeth ymateb sy'n credu y byddai'n briodol cynyddu'r premiwm treth gyngor ar gyfer EGH, y consensws cyffredinol yw y dylid rhoi'r cynnydd lleiaf (hyd at 50%) ar eiddo a adawyd yn wag am 1-2 flynedd. Dewisodd ychydig dros hanner (54%) yr opsiwn hwn ar gyfer eiddo a adawyd yn wag rhwng 1-2 flynedd, ychydig dros chwarter (26%) yn credu y byddai cynnydd uwch o 100% yn briodol, tra bod un rhan o bump o'r rhai wnaeth ymateb (20%) yn credu y byddai unrhyw beth o 150% i 300% yn briodol fel y crynhoir yn y siart isod.

C23. Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y gwahanol gyfnodau o amser y mae eiddo yn wag? (1-2 flynedd)

▼ Canran




C24: Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y gwahanol gyfnodau o amser y mae eiddo yn wag? (2-5 mlynedd)

Yn ôl y disgwyl, dewisodd y rhai wnaeth ymateb gynnydd uwch ar gyfer eiddo a adawyd yn wag am gyfnodau hirach. Fodd bynnag, mae barn ar y lefel briodol o gynnydd ar gyfer eiddo sy'n wag rhwng 2-5 mlynedd yn fwy amrywiol o'i gymharu â'r rhai sy'n wag rhwng 1-2 flynedd. Mae'r gyfran fwyaf (36%) yn credu bod cynnydd o 100% yn briodol, tra bod rhaniad gweddol gyfartal rhwng cynnydd o 200% a 300%, gyda 20% a 19% yn dewis yr atebion hynny yn y drefn honno. Yr ateb lleiaf cyffredin a roddir yw y

dylid gosod y cynnydd ar 250% gyda chyn lleied â 3% yn dewis yr opsiwn hwn. Crynhoir y gwahanol safbwyntiau yn y siart isod.

C24. Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y gwahanol gyfnodau o amser y mae eiddo yn wag? (2-5 mlynedd)

▼ Canran




C25: Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y cyfnod gwahanol o amser y mae eiddo yn wag? (5-10 mlynedd)

Gwelwyd tueddiadau tebyg yn yr ymatebion i gwestiwn 25 lle'r oedd y rhai wnaeth ymateb o'r farn po hiraf yr oedd eiddo wedi bod yn wag, po uchaf yw'r premiwm treth y cyngor y dylid ei gymhwyso. Os oedd eiddo wedi bod yn wag am 5-10 mlynedd, roedd 45% o'r rhai wnaeth ymateb o'r farn y dylai'r premiwm fod ar yr uchafswm o 300% y gellir ei godi. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i gael premiwm is yn cael ei gyflwyno, er enghraifft roedd 21% yn credu bod 200% yn swm priodol, tra bod 12% yn credu bod 100% yn briodol ac roedd 11% yn cefnogi premiwm o 150%. Roedd llawer llai o gefnogaeth i'r premiwm 'hyd at 50%' isaf gan mai dim ond 5% o'r rhai wnaeth ymateb oedd yn credu bod y lefel hon yn briodol.

C25. Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y cyfnod gwahanol o amser y mae eiddo yn wag? (5-10 mlynedd)

▼ Canran




*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

C26: Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y cyfnod gwahanol o amser y mae eiddo yn wag? (Dros 10 mlynedd)

Wrth ystyried y premiwm ar gyfer eiddo sy'n wag ers dros 10 mlynedd, dywedodd mwyafrif y rhai wnaeth ymateb (66%) y dylid cymhwysu'r uchafswm o 300%. Roedd llawer llai o gefnogaeth i lefelau eraill gyda Premiwm o 200% yn opsiwn mwyaf poblogaidd nesaf gyda 15% o'r rhai wnaeth ymateb, ond roedd gan yr opsiynau sy'n weddill i gyd lai na 10% o gefnogaeth fel y crynhoir yn y siart isod.

C26. Os felly, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y cyfnod gwahanol o amser y mae eiddo yn wag? (Dros 10 mlynedd)

▼ Percentage



Mae'r siart isod yn dangos y canlyniadau i gwestiynau 23 i 26 gyda'i gilydd. Mae'n dangos canran y rhai wnaeth ymateb sy'n cefnogi pob un o'r lefelau premiwm treth gyngor yn ôl faint o amser y mae eiddo wedi bod yn wag. Mae'r tueddiadau cyffredinol i'w gweld yn amlwg iawn - roedd y rhai wnaeth ymateb o blaid dull 'graddfa symudol', lle po hiraf mae'r eiddo wedi bod yn wag po uchaf yw'r premiwm y dylid ei gymhwysu. Er enghraifft, ar gyfer eiddo sy'n wag am 1-2 flynedd roedd 54% o'r rhai wnaeth ymateb yn cefnogi premiwm is o hyd at 50%, am 2-5 mlynedd yn wag roedd y gyfran fwyaf (36%) o blaid premiwm o 100%, am 5-10 mlynedd yn wag roedd y gyfran fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb (45%) yn cefnogi cynnydd o 300% ac ar gyfer eiddo gwag am dros 10 mlynedd roedd mwyafrif o 66% o blaid y premiwm llawn o 300%

C23-26. Os felly, yna pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor am y cyfnodau gwahanol o amser y mae eiddo yn wag


Lefel premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag tymor hir:

Hyd at 50% 100% 150% 200% 250% 300%


1-2 flynedd



2-5 mlynedd



5-10 mlynedd



Dros 10 mlynedd




Canran yr ymatebwyr

C27: Pryd ydych chi'n meddwl y dylid gweithredu cynnydd?

I'r rhai a oedd o'r farn y dylid gweithredu cynnydd mewn premiwm treth y cyngor yn dibynnu ar faint o amser y mae eiddo wedi bod yn wag, roedd y mwyafrif (60%) o'r farn y dylid gweithredu cynnydd o fis Ebrill nesaf (2024), h.y. ar y cyfle cyntaf, tra bod ychydig llai na thraean (32%) o'r farn y dylid camu dros fwy na blwyddyn. Roedd 8% arall heb unrhyw farn.

C27. Pryd ydych chi'n meddwl y dylid gweithredu cynnydd?

▼ Canran




C28: Os nad ydych yn credu y dylid cyflwyno cynnydd yn wahanol gan dibynnu ar ba mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor?

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn teimlo na ddylid cyflwyno cynnydd yn dibynnu ar ba mor hir yr oedd eiddo wedi bod yn wag pa lefel fyddai'n briodol ar gyfer premiwm treth y cyngor ar eiddo gwag hirdymor. Dim ond 69 o'r rhai wnaeth ymateb oedd yn credu y dylid cyflwyno cynnydd i bob eiddo

gwag hirdymor, waeth faint o amser yr oeddent wedi bod yn wag. O'r rheini, nododd y gyfran fwyaf (35 neu 51%) y dylid cyflwyno'r uchafswm o 300%, er bod 20% neu 14 o'r rhai wnaeth ymateb hefyd a nododd 100% a 12% a nododd 'hyd at 50%'.

C28. Os nad ydych yn credu y dylid cyflwyno cynnydd yn wahanol gan ddibynnu ar ba mor hir y mae eiddo wedi bodi yn wag, pa lefel ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i osod Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor?

▼ Canran




C29: Pryd ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i gynnydd gael ei weithredu?

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr i gwestiwn 28 am eu barn ynghylch *pryd* y dylid gweithredu cynnydd mewn premiwm treth y cyngor ar gyfer eiddo gwag tymor hir, pe bai cynnydd yn cael ei gyflwyno. Nododd y mwyafrif llethol (81% neu 57 o'r rhai wnaeth ymateb) y dylid ei gyflwyno o fis Ebrill 2024, gyda dim ond 7 neu 10% yn nodi y dylid ei gamu a'i gyflwyno dros fwy na blwyddyn. Roedd 6 (9%) heb unrhyw farn.

C29. Pryd ydych chi'n meddwl fyddai'n briodol i gynnydd gael ei weithredu?

▼ Canran




C30: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai nifer yr eiddo gwag hirdymor yn

Yna gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr gyfres o gwestiynau ar beth roeddent yn credu y byddai effaith

cynnydd ym mhreimiwm treth y cyngor ar eiddo gwag hirdymor. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r effaith ar nifer yr eiddo gwag hirdymor yn y Sir. Roedd y mwyafrif (70%) yn teimlo mai'r canlyniad fyddai gostyngiad yn nifer yr eiddo gwag hirdymor, gyda nifer hyd yn oed yn nodi gostyngiad naill ai'n gymedrol (35%) neu'n sylweddol (35%). Roedd bron i chwarter (23%) yn teimlo na fyddai cynnydd yn arwain at unrhyw newid a byddai'r nifer yn aros yr un fath. Dim ond cyfran fach o'r rhai wnaeth ymateb oedd yn teimlo y byddai'n arwain at gynnydd, gyda 3% yn nodi y byddai'n cynyddu'n gymedrol a 3% arall yn nodi y byddai'n cynyddu'n sylweddol.

C30. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai nifer yr eiddo gwag hirdymor yn

▼ Canran




*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

Cafodd y safbwyntiau hyn eu cefnogi'n gryf gan y rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion lle roedd 75% o'r farn y byddai'r nifer yn gostwng naill ai'n gymedrol neu'n sylweddol. Mae hyn yn wahanol iawn i ddim ond 7% a oedd o'r farn y byddai'r nifer yn cynyddu naill ai'n gymedrol neu'n sylweddol. Nid oedd perchnogion eiddo gwag tymor hir mor sicr o'r effaith, gyda dim ond 35% yn credu y byddai'r nifer yn gostwng yn gymedrol/sylweddol. Yn hytrach, roedd y mwyafrif o 57% yn credu y byddai'r effaith yn niwtral, gweler y siartiau isod.

C30. Perchnogion Eiddo Gwag Hirdymor yn unig:

Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai nifer yr eiddo gwag hirdymor yn


▼ Canran (a rhif)



C30. Ddim yn perchen Eiddo Gwag Hirdymor: Pe

bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai nifer yr eiddo gwag hirdymor yn

▼ Canran (a rhif)



*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.


C31: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn

Pan ofynnwyd iddynt am yr effaith ar argaeledd tai fforddiadwy yn y Sir, roedd mwyafrif y rhai wnaeth

ymateb (53%) yn bendant y byddai'n arwain at gynnydd mewn tai fforddiadwy gan y byddai premiwm uwch yn annog mwy o eiddo yn ôl i'r farchnad dai leol. Dywedodd y gyfran fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb (37%) y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn cynyddu'n gymedrol dywedodd 16% arall y byddai'n cynyddu'n sylweddol. Roedd 39% arall yn teimlo na fyddai'n arwain at unrhyw newid ac argaeledd tai fforddiadwy ac aros yr un fath. Dim ond nifer fach o'r rhai wnaeth ymateb oedd yn teimlo y byddai'n arwain at ostyngiad gyda 13 yn nodi y byddai'n gostwng yn gymedrol a 13 arall yn nodi y byddai'n gostwng yn sylweddol.

C31. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn


▼ Canran



Roedd peth gwahaniaeth barn ymhlith y rhai wnaeth ymateb sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion a'r rhai nad ydynt. Ymhlith perchnogion eiddo gwag hirdymor, roedd y canlyniadau'n aneglur gyda mwyafrif o 61% yn nodi y byddai'r argaeledd yn aros yr un fath a rhaniad bras cyfatebol rhwng cynnydd cymedrol/sylweddol (19%) a gostwng yn gymedrol/sylweddol (20%). I rai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag tymor hir, roedd y tueddiadau yn gliriach - dywedodd 58% y byddai'r effaith yn gynnydd cymedrol neu sylweddol ar argaeledd tai fforddiadwy, gyda 36% arall yn datgan y byddai'n niwtral. Nododd nifer fach o 41 o ymatebion neu 6% y byddai'r effaith yn ostyngiad cymedrol neu sylweddol.


C31. Perchnogion Eiddo Gwag Hirdymor yn unig: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn

▼ Canran (a rhif)



c31. Do Not Own a Long-Term Property: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai argaeledd tai fforddiadwy yn

▼ Canran (a rhif)




C32: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n

credu y byddai'r effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned yn cael effaith

Roedd yr effaith ar ddefnydd a statws y Gymraeg yn llai eglur, gyda'r mwyafrif o'r rhai wnaeth ymateb (59%) yn nodi y byddai'r effaith yn 'niwtral'. Roedd 31% yn dweud y byddai'r effaith naill ai'n gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn, a dim ond nifer fach 10% neu 48 o'r rhai wnaeth ymateb oedd yn teimlo y byddai'r effaith ar y Gymraeg yn negyddol neu'n negyddol iawn.

C32. Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned yn cael effaith


▼ Canran



Roedd perchnogion eiddo sy'n wag yn y hirdymor a'r rhai nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yn teimlo y byddai'r effaith yn niwtral - 64% o berchnogion eiddo tymor hir a 58% o'r rhai nad oeddent yn berchnogion. Fodd bynnag, ymhlith y rhai a roddodd farn gadarnhaol neu negyddol roedd gwahaniaethau barn. Roedd perchnogion eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol o weld yr effaith yn un negyddol tra bod y rhai wnaeth ymateb hynny nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol o weld yr effaith yn un cadarnhaol, fel y dangosir yn y siartiau isod. Roedd 6% o berchnogion eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion yn gweld yr effaith yn un cadarnhaol tra bod 29% yn ei weld yn negyddol. I'r gwrthwyneb, roedd 34% o'r rhai nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yn ei weld yn gadarnhaol, o'i gymharu â 7% a oedd yn ei ystyried i fod yn negyddol.

C32. Perchnogion Eiddo Gwag Hirdymor yn unig:


Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned yn cael effaith



*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

Q32. Nad ydynt yn berchen ar Eiddo Gwag

Hirdymor: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned yn cael effaith




*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

C33: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar y gymuned leol yn

Pan ofynnwyd iddynt am yr effaith ar y gymuned leol, dywedodd y mwyafrif (65%) y byddai naill ai'n gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn. Roedd bron i chwarter (23%) a ddywedodd y byddai'n niwtral ac na fyddai'n cael unrhyw effaith, a nododd nifer fach o ymatebion (13%) y byddai'n cael effaith negyddol neu negyddol iawn.

C33. Pe byddai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar y gymuned leol yn

▼ Canran




*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

Roedd gwahaniaeth barn amlwg rhwng y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion a'r rhai nad ydynt. Ar gyfer perchnogion eiddo gwag hirdymor, nododd union hanner (50%) y rhai wnaeth ymateb y byddai'r effaith ar gymunedau lleol yn negyddol gyda chyfran llawer is o 12% yn nodi y byddai'n gadarnhaol/cadarnhaol iawn, gweler siartiau isod. I'r gwrthwyneb, ar gyfer y rhai wnaeth ymateb nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag tymor hir, roedd barn yn llawer mwy cadarnhaol gyda 65% yn nodi y byddai'r effaith yn gadarnhaol/gadarnhaol iawn a chyfran fach o 12% yn nodi negyddol/negyddol iawn.

C33. Perchnogion Eiddo Gwag Hirdymor yn unig:

Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar y gymuned leol yn


▼ Canran (a rhif)



C33. Nad ydynt yn berchen ar Eiddo Gwag Hirdymor:

Pe bai Premiwm Treth y Cyngor ar eieiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar y gymuned leol yn

▼ Canran (a rhif)




C34: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar dwristiaeth yn

Fodd bynnag, pan ofynnwyd yn benodol am yr effaith ar dwristiaeth yng Ngheredigion, roedd yr ymatebion yn llawer llai eglur gydag ychydig dros hanner yr holl rai wnaeth ymateb (52%) yn nodi y byddai'r effaith yn 'niwtral'. Roedd 30% arall yn dweud y byddai'r effaith naill ai'n gadarnhaol/gadarnhaol iawn, a chyfran lai o 21% yn nodi negyddol/negyddol iawn.

C34. Pe bai lefel Premiwm Treth y cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar dwristiaeth yn

▼ Canran




*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

Gwelir tueddiadau tebyg yn y rhaniad rhwng ymatebwyr busnes, y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yng Ngheredigion a'r rhai nad ydynt. Ar gyfer y tri grŵp, y categori niwtral a ddenodd y nifer fwyaf o ymatebion – 39% ar gyfer busnesau, 41% ar gyfer perchnogion eiddo gwag tymor hir a 53% ar gyfer y rhai nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag tymor hir, gweler siartiau isod. Fodd bynnag, roedd busnesau a pherchnogion eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol o weld yr effaith yn un negyddol / negyddol iawn, tra bod y rhai nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol o weld yr effaith yn gadarnhaol.

C34. Atebion gan fusnesau yn unig: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag Hirdymor yn cael ei gynyddu, ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar dwristiaeth yn


▼ Canran (a rhif)



C34. Perchnogion Eiddo Gwag Hirdymor yn unig:

Pe ai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag Hirdymor yn cael ei gynyddu, ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar dwristiaeth yn


▼ Canrn (a rhif)



C34. Nad ydynt yn berchen Eiddo Gwag Hirdymor:

If the level of the Council Tax Premium on long term empty properties were to be increased, do you think the effect on tourism would be

▼ Percentage (and number)




*Nid yw'r ffigurau'n cyfansymu oherwydd talgrynnu.

C35: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar yr economi leol yn

Ar y cyfan, roedd y farn ar yr effaith ar yr economi leol yn gadarnhaol gyda mwyafrif bach o 56% yn nodi eu bod yn credu y byddai'r effaith naill ai'n gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn, o'i gymharu ag 20% a oedd yn credu y byddai'r effaith yn negyddol neu'n negyddol iawn. Dywedodd chwarter y rhai wnaeth ymateb yn union y byddai'r effaith yn 'niwtral'.

C35. Pe bai lefel Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar yr economi lleol yn


▼ Canran



Unwaith eto, mae'r tueddiadau yn amrywio pan fydd yr ymatebion yn cael eu rhannu gan wahanol fathau o berchnogaeth, gweler y siartiau isod. Er enghraifft, ymatebion gan fusnesau oedd y mwyaf cytbwys gyda'r gyfran fwyaf (21 neu 34%) yn nodi y byddai'r effaith yn niwtral, tra bod rhaniad cyfatebol rhwng y rhai sy'n nodi cadarnhaol / cadarnhaol iawn (34%) a'r rhai a nododd negyddol / negyddol iawn (32%). Yn y cyfamser, roedd perchnogion eiddo gwag hirdymor yn gweld yr effaith yn negyddol yn bennaf, gyda mwyafrif o 57% yn nodi naill ai'n negyddol neu'n negyddol iawn. I'r rhai nad ydynt yn berchen ar eiddo gwag tymor hir, roedd barn llawer mwy cadarnhaol o'r effaith, gyda 62% yn nodi y byddai'r effaith naill ai'n gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn. Ym mhob un o'r tri grŵp roedd cyfran sylweddol o'r rhai wnaeth ymateb yn teimlo y byddai'r effaith yn niwtral.


C35. Atebion Busnesau yn unig: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar yr economi leol yn

▼ Canran (a rhif)



C35. Perchnogion Eiddo Gwag Hirdymor yn unig: Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar yr economi leol yn


▼ Canran (a rhif)



C35. Nad ydynt yn berchen Eiddo Gwag Hirdymor:

Pe bai lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei gynyddu, a ydych chi'n credu y byddai'r effaith ar yr economi leol yn

▼ Canran (a rhif)



C36: Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych mewn perthynas â Premiymau Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor

Yna cafodd y rhai wnaeth ymateb gyfle i fynegi unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â premiymau treth y cyngor ar eiddo gwag hirdymor nad oedd yn rhan o'r cwestiynau blaenorol. Derbyniwyd cyfanswm o 343 o ymatebion yn cwmpasu ystod o wahanol safbwyntiau. Cafodd yr ymatebion eu categoreiddio i themâu bras i gynorthwyo'r dadansoddiad a dangosir y rhai mwyaf cyffredin yn y tabl isod.

Thema	Nifer y cyfeiriadau
Dylai fod eithriadau ar gyfer rhai amgylchiadau lliniaru fel symud i ofal iechyd hirdymor, cael caniatâd cynllunio, argaeledd crefftwyr ar gyfer adnewyddu, anhawster gwerthu'r eiddo neu etifeddu eiddo	46
Dylid archwilio'r rheswm pam eu bod yn wag gan fod amrywiaeth o amgylchiadau gwahanol a allai ddenu camau gweithredu gwahanol (e.e. cyfyngiadau ariannol, mynd i'r ysbyty neu ofal, neu aros am ganiatâd cynllunio)	36
Mae angen adnewyddu llawer o eiddo gwag hirdymor sy'n cymryd amser i'w gwblhau a dod â'r eiddo yn ôl i gyflwr y gellir byw ynddo cyn y gellir ei rentu neu ei werthu, a dylid rhoi ystyriaeth ar gyfer hyn	32
Cefnogaeth gyffredinol ar gyfer codi Premiymau Treth y Cyngor	30
Nid yw eiddo gwag hirdymor yn cyfrannu at yr economi leol ac nid yw'n cyflawni unrhyw bwrpas i'r gymuned leol	29
Gallai cynnydd ym mhremiwm treth y cyngor arwain at ganlyniadau negyddol tymor hir , fel ei gwneud yn anoddach ac yn hirach i'w defnyddio eto, cosbi pobl leol sy'n adnewyddu, rhwystro pobl sy'n dymuno prynu eiddo sydd angen gwaith a'i gwneud yn anoddach ei werthu	25
Mae eiddo gwag tymor hir yn hyll mewn cymunedau lleol ac weithiau'n denu fandaliaeth	22
Dylai'r Cyngor eu prynu gan ddefnyddio gorchmynion prynu gorfodol os ydynt wedi bod yn wag am gyfnod penodol o amser a'u rhentu neu eu gwerthu fel tai fforddiadwy.	15

Annog a gweithio'n gadarnhaol gyda pherchnogion eiddo gwag hirdymor i'w defnyddio eto, o bosibl drwy ddefnyddio grantiau	15
Dylid gwneud mwy i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd i greu cyfleoedd i bobl leol aros a byw yn eu hardal leol	13
Ni fydd codi premiymau treth gyngor ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith, yn enwedig mewn perthynas â chynyddu argaeledd tai fforddiadwy	9


Mae'r tabl canlynol yn rhoi sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd.

Sampl Sylwadau	
"Ar hyn o bryd Ceredigion sydd â'r gyfradd codi tâl isaf ledled Cymru ar gyfer Premiymau Ail Gartref a Phremiymau Gwag Hirdymor. Dylid codi hyn o leiaf yn unol â siroedd eraill, a dylai'r cyfraddau Gwag Hirdymor gynyddu'n raddol am ba mor hir y mae'r eiddo wedi aros yn wag."	"Unwaith eto, mae llawer o resymau dros gartrefi gwag tymor hir. Os yw'r cartref yn wag oherwydd bod gan y preswlydd broblemau gofal iechyd tymor hir, dylai fod eithriadau, dylid ystyried sefyllfaoedd lliniaru."
"Heb os, bydd lleihau'r stoc o eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned a'r economi leol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd llawer o'r stoc yn dai yn anfforddiadwy, ond yn y pen draw byddai'r eiddo hyn yn cael ei brynu am bob math o resymau gwahanol, efallai eu troi i Dai Aml-berson (HMO) gan ddarparu llety gwerthfawr i'r rhai mewn angen neu ychwanegu stoc ar gyfer y sector gosod gwyliau wedi'i ddodrefnu, a fyddai yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth, y cymunedau lleol a'r economi. "	"Mae Ceredigion angen buddsoddiad allanol. Mae ei gwneud hi'n anoddach i bobl fuddsoddi yn yr ardal yn golygu llai o dwristiaeth. Mae hynny'n golygu llai o arian yn yr ardal leol sydd yn ei dro yn golygu incwm is yn yr ardal. Mae hyn i gyd yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl brynu cartrefi, nid yn haws. Nid yw trethu'r bobl sy'n cefnogi ardal sydd fel arall yn tanberfformio yn economaidd yn ffordd dda o dyfu'r economi. Mae angen yr arian yma arnom ni, ddylen ni ddim bod yn gyrru pobl ag arian i ffwrdd o'r ardal ond yn annog eu buddsoddiad."
"Dylai perchnogion y tai gwag dalu cynnydd o 100% a chynnydd o 50% i berchnogion ail gartrefi wrth i berchnogion ail dai gyfrannu at economi'r ardal tra nad yw cartrefi gwag yn gwneud dim i'r economi leol. Os yw'r eiddo'n cael ei ddadelfennu/ei ddirywio, yna mae hyn yn cael effaith negyddol ar yr ardal. Gobeithio y byddai cynyddu treth y cyngor 100% ar gyfer perchnogion tai gwag yn eu galluogi i ganolbwyntio ac yn edrych ar eu hopsiynau i werthu, gwella'r eiddo neu sicrhau ei fod ar gael i'w rentu gan helpu'r farchnad dai leol."	"Mae'n ymddangos bod eiddo'n aros yn wag am amrywiaeth o wahanol resymau felly mae'n anodd dweud (uchod) pa effaith y gallai premiymau treth y cyngor gael mewn termau ymarferol. Y ffactor pwysicaf wrth wella tai a bywyd cymunedol yw argaeledd gwaith ystyrllon sy'n darparu rhagolygon gyrfu gydol oes. Mae'n anodd iawn dod o hyd i rolau a datblygu gyrfaoedd yng Nghymru, yn gymaint ag y mae'r rhai ohonom a anwyd yma wedi ceisio ei wneud. Mae ymddeoliad yn llwybr adref rwy'n edrych ymlaen ato."


Gwybodaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gofynnwyd cwestiynau monitro demograffig a chydaddoldeb safonol y Cyngor fel rhan o'r arolwg.


37. Beth yw eich oedran?




38. Beth yw eich rhyw?




39. A yw eich rhyw yr un fath â phan gawsoch eich geni?




40. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n ystyried eich hun?




41. Sut fydddech yn dsgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?




42. Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol? Dewisiwch un opsiwn sy'n disgrifio eich grwp ethnig neu gefndir orau.



43. Beth yw eich crefydd neu gred?




44. Ydych chi wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfod y DU o'r blaen? (dylai aelodau cyfredol ddweud 'na')




45. A oes gennych chi gyflwr iechyd corfforol neu fyddylion neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?



46. Beth yw eich dewis iaith?



47. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?




Nodiadau ar Gynrychiolaeth yr Atebion

Oed

Y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd y rhai **45 i 64 oed** (622 neu 45%). Mae hyn yn llawer uwch na chyfran y boblogaeth gyfan rhwng 45 a 64 oed, sef 27%, er bod hyn yn debygol o gael ei yrru, yn rhannol o leiaf, gan ddemograffeg perchnogion ail gartrefi a pherchnogion eiddo gwag hirdymor. Mae ymgynghoriadau'r cyngor hefyd yn tueddu i gynhyrchu cyfran uwch o ymatebion gan grwpiau oedran hŷn.

Atebwyr yr ymgynghoriad o'u cymharu â phoblogaeth Ceredigion: oedran

▼ Canran



Rhyw

Roedd rhaniad cyfatebol rhwng ymatebwyr **gwrywaidd (43%)** a **benywaidd (46%)**. Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae ymatebion gan fenywod wedi bod yn amlwg yn uwch na dynion, ond yn yr arolwg hwn, maent yn fwy cytbwys.

Anabledd


Nododd 121 o ymatebwyr **(9%)** fod ganddynt broblem iechyd hirdymor neu anabledd a oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd **ychydig neu lawer**. Mae hyn yn llawer is na'r 22% ar draws Ceredigion gyfan.

Ethnigrwydd

Disgrifiodd mwyafrif llethol (86.0%) y rhai wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad eu grŵp ethnig fel gwyn. Fodd bynnag, mae hyn yn is na chyfran y boblogaeth wyn ar draws Ceredigion gyfan sy'n 96.2% yn ôl y cyfrifiad diweddaraf. Roedd grwpiau ethnig eraill gan gynnwys Asiaidd, Du a Chymysg yn cyfrif am gyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr. Roedd 9.5% arall nad oeddent am ddatgan eu hethnigrwydd.

Atebwyr yr ymgynghoriad o'u cymharu â phoblogaeth Ceredigion: ethnigrwydd

▼ Canran



Cymraeg

Dyweddodd 38% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn ôl y Cyfrifiad diweddaraf, mae 45.3% o boblogaeth Ceredigion dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Atebwyr yr Ymgynghoriad o'u cymharu â phoblogaeth Ceredigion: cgallu siarad Cymraeg

▼ Canran

